**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Llun, 29 Ionawr 2024 am 5.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd S.Evans
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd G L Warren
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S Emanuel
Mr M Veale

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Ms L Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd K Morgan

## 1 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

## 2 Cofnodion

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023.

## 3 Dolenni Ymgynghori

Cyfeiriodd y Blaen Swyddog Materion Craffu at yr ymgynghoriadau agored, gan atgoffa'r Aelodau bod modd iddyn nhw gysylltu â'r garfan materion craffu i drafod unrhyw gwestiynau posibl.

## 4 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Treth Gyngor Decach

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn eu gwahodd i ymateb yn ffurfiol i

gam 2 o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r cynigion ar gyfer system Treth y Cyngor Tecach yng Nghymru. Dywedodd mai nod y cynigion yw ail-gydbwyso cyfoeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan greu system dreth sy'n deg i bawb ac sy'n cysylltu pobl â chymunedau.

Croesawodd y Cadeirydd John Rae a Lisa Haywood o CLILC, a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod i roi trosolwg o'r cynigion ac ateb unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau mewn perthynas â'r cynigion.

Ar ôl i'r cynigion gael eu cyflwyno, gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

Dywedodd nifer o'r Aelodau, er bod angen newid er mwyn creu system decach, eu bod nhw o'r farn ei bod hi'n rhy fuan i ddiwygio treth y cyngor o 2025 ymlaen. Nodon nhw nad yw'r canlyniadau a'r effeithiau wedi'u deall yn llawn a bod angen mwy o waith codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ogystal â hynny, nododd yr Aelodau fod angen dealltwriaeth well o'r ffordd y byddai'r diwygiadau arfaethedig yma'n effeithio ar gyllid awdurdodau lleol, o ganlyniad i newidiadau yn sylfaen y dreth, a'r effaith ganlyniadol ar lefel y cyllid sy'n cael ei godi gan dreth y cyngor a'i ddyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Cyfeiriwyd yn benodol at y cyfyngiadau ar gyfer Rhondda Cynon Taf oherwydd ei sylfaen dreth leol. Thema gyson a gafodd ei hadrodd yn ôl oedd yr angen i wneud pethau'n gywir, a hynny mewn modd priodol.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i weld gwybodaeth benodol yn cael ei rhannu mewn modd cyson, clir a chryno gyda'r trigolion unwaith bod y drefn newydd wedi'i chadarnhau. Bydd hyn yn sicrhau bod y trigolion yn gwbl effro i effaith y newid a'r goblygiadau ariannol arnyn nhw. Mae hyn yn fwy pwysig byth o gofio'r argyfwng costau byw sy'n dal i fynd rhagddo. Roedd yr Aelodau hefyd am weld trigolion yn cael eu hysbysu ymhell ymlaen llaw am unrhyw newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith, fel bod modd iddyn nhw baratoi'n ariannol.

Roedd nifer o'r Aelodau'n siomedig â chynnwys deunydd ymgynghori Llywodraeth Cymru, gan nad oedden nhw o'r farn ei fod yn darparu digon o wybodaeth i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael y manylion llawn. Gallai hyn olygu na fydd yr adborth a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad yn ystyrlon. Yn hyn o beth, cafodd gwybodaeth benodol ei rhoi i gefnogi gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol, a hynny trwy ddarparu enghreifftiau o'r effaith ariannol bosibl ar aelwyd gyffredin fesul band treth. Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfleoedd ymgysylltu pellach o ran y diwygiadau arfaethedig.

Cododd yr Aelodau nifer o bryderon o ran ailbrisio'r bandiau treth, yn enwedig Band A ar £112,000, a fydd yn arwain at wthio llawer o drigolion yn ardal Rhondda Cynon Taf i fand treth Band B newydd. Roedd yr Aelodau'n bryderus y bydd hyn yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar drigolion sydd eisoes yn cael trafferth gyda chostau byw bob dydd. Roedd yr Aelodau'n awyddus i weld y prisiadau arfaethedig yn cael eu hailystyried, a bod y rhesymeg dros gyflwyno bandiau treth newydd yn cael ei chyfleu'n glir pan fydd cartrefi'n cael eu gwerthuso.

Wrth drafod y tri opsiwn, roedd nifer o'r Aelodau'n parhau i fod yn bryderus y bydd y system yma'n dal i fod yn annheg, a bod cyfle arall yn cael ei golli i gyflwyno diwygiadau sylfaenol i'r maes. Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd

ynghylch y baich costau ychwanegol y gallai'r cynigion yma arwain atyn nhw ar gyfer eiddo o werth uwch, ac roedd cwestiynau o ran yr egwyddor o gysylltu gwerthoedd eiddo â gallu aelwydydd i dalu. Rhoddwyd enghraifft bod gwerth eiddo yn ne'r Fwrdeistref Sirol yn gyson uwch na'r rhai yn y gogledd, ac mewn llawer o achosion gallai hyn olygu bod gan deuluoedd sy'n gweithio lai o incwm gwario yn yr ardaloedd yma. Tynnodd rhai Aelodau sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru ystyried ymchwilio i systemau treth y cyngor sydd ar waith mewn rhannau eraill o Ewrop. Nododd yr Aelodau hefyd y gallai unrhyw ailbrisiadau yn y dyfodol, sy'n cynnwys tai cymdeithasol, olygu bod eiddo'n cael ei ddyrannu i fand Treth y Cyngor uwch, gan arwain at greu pwysau a rhwystrau ariannol ychwanegol i deuluoedd sy'n gobeithio prynu cartrefi yn y dyfodol, gyda rhai teuluoedd hefyd yn dod yn gymwys ar gyfer cymorth gan y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i gyflwyno adborth i Lywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

**5 'GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU' - DRAFFT O GYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR AR GYFER 2024-2030**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyflawniad yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau rag-graffu ar y Cynllun Corfforaethol drafft newydd ar gyfer 2024/25 – 2029/30 a helpu i'w lunio. Mae'r Cynllun drafft yn rhannu Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn 2024, yn ogystal â nodi pedwar Amcan Lles drafft a blaenoriaethau ar gyfer y chwe blynedd nesaf. Aeth y Rheolwr Cyflawniad ymlaen i sôn bod y Cynllun Corfforaethol drafft newydd 2024-2030 yn ceisio adeiladu ar gynnydd y Cynlluniau Corfforaethol blaenorol, ac mae wedi ailedrych ar eu Gweledigaeth, Pwrpas ac Uchelgeisiau ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, gofynnodd y Prif Weithredwr am adborth ar y Cynllun drafft gan Aelodau'r Pwyllgor, yn benodol mewn perthynas â'r Weledigaeth a'r pedwar amcan Lles. Ar ôl i'r cyflwyniad ddod i ben, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr wybodaeth, gan wahodd adborth a sylwadau gan yr Aelodau. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

**Gweledigaeth**

Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r datganiad Gweledigaeth arfaethedig, a oedd, yn eu barn nhw, yn dangos uchelgais, ond hefyd yn amlygu'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid atgyfnerthu ymdeimlad o gynhwysiant o fewn y Weledigaeth drwy gynnwys y gair "All" ar ddechrau'r datganiad Saesneg.

**Amcan Lles – Pobl a Chymunedau**

Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod presenoldeb yn yr ysgol yn cael ei nodi yn y camau gweithredu, gan fod hyn yn fater pwysig ar agenda'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd o'r farn bod angen i'r Cynllun gyfeirio'n fwy penodol at Dlodi Plant yn ogystal â'r angen i feithrin uchelgais, yn enwedig ar gyfer cymunedau a phobl ifainc. Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y defnydd o hyperddolenni ym mhob rhan o ddogfen y Cynllun, gan argymell bod y defnydd o'r rhain yn cael ei adolygu a'i ddefnyddio

dim ond lle bo angen. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun yn hygyrch ac yn hawdd i'r cyhoedd ei ddarllen a'i ddeall.

**Amcan Lles - Gwaith a Busnes**

Nododd yr Aelodau eu bod nhw'n cefnogi'r amcan ar y cyfan, ond codwyd pryderon ehangach ynghylch y diffyg prentisiaethau sydd ar gael. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid adolygu argaeledd prentisiaethau i sicrhau bod lleoliadau ar gael, gyda'r bwriad o ysbrydoli pobl i hyfforddi a sicrhau gwaith medrus ar ôl y coleg. Roedd pryder hefyd bod y cynlluniau prentisiaeth cenedlaethol sydd ar waith ar hyn o bryd yn anhyblyg. Mae yn ei dro yn atal busnesau llai, a allai gynnig cyfle a rennir, rhag cynnig lleoliadau. Dywedodd yr Aelodau hefyd yr hoffen nhw weld cyfeiriad at waith medrus iawn a chymorth o ran galluogi pobl i ddilyn llwybrau gyrfa gwerth chweil, yn hytrach na dim ond dod o hyd i swyddi.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y problemau traffig ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys canol y trefi, gan ddweud bod angen i gymunedau fod â chysylltiadau da, gwell seilwaith, a thrafnidiaeth gyhoeddus hygyrch, fforddiadwy.
Nododd yr Aelodau hefyd y gwerth mewn rhoi cyfleoedd lleol i drigolion siopa mewn ardaloedd manwerthu lleol, llai, yn hytrach na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar ganol trefi.

**Amcan Lles – Natur a'r Amgylchedd**

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y materion yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu, gyda phroblemau cynyddol o ran sbwriel a thipio anghyfreithlon ledled y Fwrdeistref Sirol gyfan a'i hylltra. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynllun gael ei eirio mewn modd sy'n amlygu pa mor bwysig yw hi fod y cyhoedd yn cymryd cyfrifoldeb am gael gwared ar eu sbwriel. Roedd yr Aelodau hefyd yn argymell bod angen rhagor o addysg am beryglon sbwriel a'i effeithiau o ran iechyd, a nodwyd y gwaith da sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda phrosiectau'r Gwasanaethau Gwastraff mewn ysgolion. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau strydoedd glanach ledled Rhondda Cynon Taf a balchder yn ein cymunedau.

**Amcan Lles – Diwylliant a Threftadaeth**

Pwysleisiodd yr Aelodau arwyddocâd y dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog, a hefyd hanes cynharach Rhondda Cynon Taf, e.e. Oes yr Haearn, gan ddweud eu bod nhw'n awyddus i weld hyn yn cael ei ystyried ym mhob rhan o'r Cynllun.

Cafodd yr Aelodau eu gwahodd i gyflwyno adborth ychwanegol yn syth i'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Cyflawniad. Mae hefyd modd gwneud hyn ar y dudalen 'Dewch i Siarad am yr hyn sy'n bwysig' ar lwyfan ymgysylltu'r Cyngor.

**Sylwadau Ychwanegol**

Nododd yr Aelodau'r ystadegau iechyd difrifol yn adrannau data'r Cynllun ar gyfer nawr a'r dyfodol, gan gyfeirio at yr ystadegau o ran cyflyrau iechyd, yn enwedig gordewdra, nid yn unig yn RhCT ond ledled y DU. Roedden nhw'n awyddus i weld y Cyngor yn gwneud rhagor o waith partneriaeth, yn enwedig gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r mentrau iechyd presennol, e.e. Pwysau Iach Byw'n Iach, i ddangos sut mae'r Awdurdod yn gweithio i fynd i'r afael â'r pryderon yma. Aeth yr Aelodau ati i gydnabod ystod ac eithafion yr heriau a nodwyd gan y data. Nododd yr Aelodau swm y data yn y Cynllun ond nodwyd hefyd bod angen

defnyddio hwn i lywio gwaith ar y cynllun yn y dyfodol. Tra'n cydnabod bod y Cynllun yn cynnwys yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni, roedd hefyd angen bod yn glir ynghylch 'sut' y caiff y blaenoriaethau eu cyflawni. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i nodi'r Canlyniadau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Ffurfio barn ar y Cynllun Corfforaethol drafft 2024-30 a ph'un a yw'n nodi:

- Gweledigaeth a phwrpas clir i'r Cyngor.
- Blaenoriaethau/Amcanion Llesiant cywir ar gyfer y Cyngor, sef

    Ø Pobl a Chymunedau
    Ø Gwaith a Busnes
    Ø Natur a'r Amgylchedd
    Ø Diwylliant a Threftadaeth

- Pa brif gamau o fewn pob blaenoriaeth/Amcan Lles a fydd yn cael yr effaith fwyaf i gyflawni'r Weledigaeth newydd.

2. Ystyried a yw'r cynllun yn ddigon uchelgeisiol a chytbwys o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor nawr ac yn y dyfodol.

3. Nodi'r gweithgarwch ymgysylltu eang sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

Nodi'r aliniad cryfach â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## 6 TREFNIADAU'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER DIOGELU PLANT AC OEDOLION MEWN PERYGL

Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r gwaith sydd wedi'i gynnal gan Grŵp Diogelu Corfforaethol y Cyngor, gan ofyn i Aelodau Etholedig graffu ar fersiwn ddrafft newydd y Polisi Diogelu Corfforaethol a chyflwyno sylwadau. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn cael ei adolygu bob tair blynedd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac i adlewyrchu datblygiadau mewn deddfwriaeth neu arfer gorau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y polisi wedi'i adolygu yn erbyn y Canllaw Arfer Da Diogelu Corfforaethol Llywodraeth Cymru a CLILC, a'i fod yn adlewyrchu mewnbwn ar arfer gorau cyfredol o ran diogelu gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym mhob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau i Oedolion, Adnoddau Dynol, Caffael, Gwasanaethau Digidol a TGCh ac eraill.

I gloi, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor, yn dilyn yr adolygiad, wedi diwygio ac atgyfnerthu'r trefniadau mewn Polisi drafft newydd a nodir yn Atodiad 1 i'r Aelodau ei ystyried.

Cyfeiriodd Aelod at nifer y staff a ymatebodd i'r arolwg a gofynnodd am adborth ar ba ganran y mae hyn yn ei gynrychioli o gymharu â chyfanswm nifer y staff yn y Cyngor. Mynegodd yr Aelod bryderon hefyd ynghylch cyfrifoldebau Diogelu Corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â gweithio'n unigol, sydd bellach yn ymestyn i weithwyr swyddfa yn ogystal â'r rhai a oedd yn gweithio ar eu pen eu

hunain yn eu rôl o ddydd i ddydd cyn y pandemig. Nododd fod modd i unrhyw oedi posibl i bolisi gweithio'n unigol a hyfforddiant arwain at oblygiadau diogelu i staff.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod yr arolwg yn cael ei ddosbarthu ac yn hygyrch i'r holl staff, gydag ychydig o dan 1,000 o aelodau staff yn cwblhau'r arolwg o gymharu â chyfanswm niferoedd staff o tua 10,500. Nododd fod cyfran uchel o'r staff a ymatebodd wedi dweud bod ganddyn nhw lefel dda o ddealltwriaeth o ran diogelu. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelod am y sylwadau ar weithio'n unigol a sicrhaodd y Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd Grŵp Llywio Diogelu Corfforaethol yn rhan o'r trefniadau monitro parhaus. Cododd yr Aelod bwynt atodol yn benodol mewn perthynas ag ysgolion, a dywedodd y Prif Weithredwr fod cyfran sylweddol o'r cyfanswm o 10,500 o staff yn gweithio mewn ysgolion, bod gwiriadau diogelu'n cael eu cynnal yn rhan o ymweliadau archwilio mewnol ag ysgolion a bod yr adborth yn cael ei gasglu a'i gasglu a'i fwydo'n ôl i'r Grŵp Llywio Diogelu Corfforaethol.

Gofynnodd Aelod sut y bydd y trefniadau newydd yn cael eu cyfleu i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried ac yn ymgorffori'r canllawiau diweddaraf yn eu polisïau eu hunain. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Grŵp Llywio Diogelu Corfforaethol yn cynnwys y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad o'r polisi. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, yn amodol ar gymeradwyo'r polisi, y bydd hyn yn cael ei gyfleu ar draws y Cyngor, gan gynnwys mewn ysgolion, i godi ymwybyddiaeth a sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori ym mholisïau diogelu lleol ysgolion.

Cyfeiriodd Aelod at yr adran Ffurfiau Camfanteisio yn yr adroddiad a nododd fod Troseddau Casineb wedi'u rhestru o dan yr adran hon, gan awgrymu nad yw hyn yn cael ei ystyried yn fath o ecsbloetio neu nodwedd warchodedig. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelod am y sylwadau ac adroddodd y ceisir eglurhad pellach ar y pwyntiau a amlygwyd.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Craffu ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl gan gynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol drafft newydd, a

2. Craffu ar y Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer 2023-25 a symud ymlaen i chwarter 2, a

Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu roi adborth i'r Cabinet gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r Polisi Diogelu Corfforaethol drafft newydd.

## 7 Materion Brys

## 8 Ymgynghori ar Gyllideb 2024-25 Cam 2

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau ymgynghori arno ac i'r Pwyllgor ymateb yn ffurfiol i ail gam Ymgynghoriad Cyllideb 2024-25 y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gofynnir i'r Pwyllgor Trosolwg a

Chraffu rag-graffu ar Strategaeth ddrafft Cyllideb Refeniw 2024/25, yn rhan o ail gam proses Ymgynghori ar Gyllideb 2024-25.

Yna rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid a Gwasanaethau Gwella gyflwyniad i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan drafod y meysydd a ganlyn: Cyflwyniad - Strategaeth Cyllideb Refeniw Ddrafft 2024/25; Sefyllfa Ariannol Bresennol y Cyngor (2023/24); Ymgynghoriad ar y Gyllideb Cam 1 - Penawdau; Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2024/25 - Penawdau/Goblygiadau ar gyfer Rhondda Cynon Taf; Strategaeth Cyllideb Arfaethedig y Cabinet 2024/25; a Chamau nesaf a dyddiadau allweddol.

Roedd un Aelod yn falch o weld bod 63% o'r rhai a ymatebodd i broses ymgynghori cam 1 ar y gyllideb wedi rhoi adborth y dylai'r Cyngor barhau â'i strategaeth ar gronfeydd wrth gefn, gan gydnabod na ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn heb iddyn nhw gael eu hailgyflenwi.

Dywedodd un Aelod fod nifer yr ymatebion i gam cyntaf yr ymgynghoriad yn ymddangos yn anghymesur o gymharu â nifer y bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf a gofynnodd a oedd cyfle i ddysgu o hyn a defnyddio gwahanol strategaethau i ymgysylltu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod y Cyngor yn ystyried ei drefniadau ar sail barhaus i ddysgu gwersi, gyda dull cynhwysfawr o ymgysylltu ar waith sy'n cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau yng nghanol trefi, ymgysylltu â phartneriaid trydydd sector ac ysgolion, a hefyd trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Gofynnodd Aelod a yw'r Cyngor yn gwneud digon i addysgu pobl am waith y Cyngor, fel bod modd deall ei gyllid yn well, hynny yw, sut y caiff arian ei wario a'i wahanol swyddogaethau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod y Cyngor yn bwriadu sicrhau bod gwybodaeth ar gael i helpu trigolion i ddeall cyllid y Cyngor a ble mae'n gwario arian cyhoeddus, a rhoddodd enghreifftiau ar ffurf canllaw hawdd ei ddarllen a gynhyrchwyd at ddibenion ymgynghori ar y gyllideb; taflen wedi'i chynnwys o fewn hysbysiadau Treth y Cyngor i drigolion sy'n rhoi dadansoddiad o gyllideb y Cyngor a sut mae'n cael ei wario a hefyd sut mae'r Cyngor yn cael ei ariannu; ac ymgysylltu'n uniongyrchol â disgyblion mewn ysgolion trwy brosesau ymgynghori. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu nad yw nifer yr ymgyngoreion y cyfeiriwyd atyn nhw yn y cyflwyniad yn adlewyrchu gweithgarwch cyfathrebu parhaus y Cyngor drwy ei gyfryngau cymdeithasol, a nododd fod nifer o brosesau ymgynghori cyhoeddus ar wahân hefyd wedi'u cynnal yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y rhain yn gysylltiedig â'r broses pennu cyllideb sydd wedi bod yn destun lefelau uchel o ymgysylltu gan y cyhoedd.

Gofynnodd Aelod a oedd gwybodaeth ddemograffig mewn perthynas ag unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y gyllideb ar gael i'w dadansoddi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Gwella, fod y wybodaeth hon yn cael ei chasglu ac y gellir ei defnyddio i lywio trefniadau ymgynghori parhaus.

Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor, er nad yw cynyddu Treth y Cyngor byth yn boblogaidd ac yn benderfyniad nad yw'n cael ei wneud yn ysgafn, mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau bod y cyllid angenrheidiol yn ei le i ddarparu ystod eang o

wasanaethau hanfodol i'n trigolion.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Rhag-graffu ar Strategaeth Cyllideb Refeniw ddrafft 2024/25 yn rhan o gam 2 o'r Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024-25 y Cyngor.
2. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu roi adborth i'r Cabinet gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

**9 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu presenoldeb yn y cyfarfod ac am eu cyfraniadau trylwyr.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.36 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**